

## EVANS, WILLIAM EILIR ('Eilir'; 1852 - 1910), clericwr a bardd

**Enw:** William Eilir Evans

**Ffugenw:** Eilir

**Dyddiad geni:** 1852

**Dyddiad marw:** 1910

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** clericwr a bardd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi

**Awdur:** David Gwenallt Jones

Ganwyd 26 Ebrill 1852 yn y Garreg Lwyd, Cenarth, Sir Gaerfyrddin. Annibynnwr ydoedd, ac aeth fel myfyriwr i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin. Troes at Eglwys Loegr yng Nghymru, a mynd yn 1878 i Goleg Dewi Sant, Llanbedr-Pont-Steffan. Daliodd rai bywiolaethau, ond ni fu ryw lawer o lun arno fel offeiriad. Bu'n gurad yn Llanfaelog (Môn), Devizes, ac Aberdâr. Bu hefyd yn ysgolfeistr, am ychydig yn athro ac yn gaplan yn ysgol ramadeg Stratford-on-Avon. Yn 1889, golygai'r *Carmarthen Journal*; aeth yn 1891 i Abertawe, ac yn 1894 i Gaerdydd, lle y bu am 13 mlynedd ar staff y *Western Mail*, ac ar brydiau'n gwasanaethu yn Eglwys Dewi Sant. O 1907 ymlaen bu'n gurad yn Llancafnan.

Yr oedd yng Nghastellnewydd Emlyn yn y cyfnod hwnnw gylch o feirdd fel ' Emlynydd,' ' **Myfyr Emlyn**,' ' **Rhys Dyfed**,' ac eraill, a chychwynnodd W. Eilir Evans tan eu dylanwad farddoni yn ifanc a chystadlu yn eisteddfodau'r ardal. Enillodd y gadair yn eisteddfod Deheudir Cymru yn Aberteifi, 1878, ar awdl ar ' Gwareiddiad,' ac argraffwyd hi yn 1884. Cyfieithodd *Essay on Criticism* (Pope) yn Gymraeg yn *Yr Haul*, ac ' Elegy in a Country Churchyard ' (Gray). Cyhoeddodd gerddi ac erthyglau yn *Y Byd Cymreig* (papur a argraffwyd yng Nghastellnewydd Emlyn), *Y Geninen*, *Y Traethodydd*, *Yr Haul*, *Y Dywysogaeth*, *Celt Llundain*, *Papur Pawb*, *The Aberystwyth Observer*, a phapurau eraill. Yn 1910 cyhoeddodd gasgliad o'i erthyglau a'i gerddi, *Rhyddiaith a Chân*. Bu farw 7 Rhagfyr 1910.

### Awdur

**David Gwenallt Jones**, (1899 - 1968)

### Ffynonellau

*Western Mail*, 8 Rhagfyr 1910

'Atgofion' yn *Rhyddiaith a Chân* (1909)

gwybodaeth gan Mr. Picton Davies, Caerdydd

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734601

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jones, D. G., (1953). EVANS, WILLIAM EILIR ('Eilir'; 1852 - 1910), clericwr a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-EIL-1852>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government